


CYNGOR TREF PONTYPRIDD - CWRDD Â'R AMCANION LLES

Mae Deddf Lles Cenedlaethol y Dyfodol 2015 (y Ddeddf) yn rhoi cyfrifoldeb ar Gyngor Tref Pontypridd i gymryd yr holl gamau rhesymol i gwrdd â'r amcanion Lles o fewn y Cynllun Lles Lleol a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf sy'n berthnasol i'n hardal ni.

Mae gan y Cyngor Tref yn greiddiol 5 ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau sef cydweithio, ataliad, integreiddiad, ymglymiad a gweithio tymor hir gan ddilyn y 7 nod parthed Lles Cenedlaethol, sef:



Mae'r cyfan yn cael eu gweithredu o dan ambarel egwyddor y datblygiad cynaladwy.

Mae'r hyn sy'n dilyn felly yn amlinellu sut y mae'r Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi cymryd yr holl gamau rhesymol yn ei waith wrth gyflawni a chwrrd y tri amcan a gyhoeddwyd.

Amcan 1:**I hybu cymunedau diogel, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles y preswylwyr ac ymwelwyr gan adeiladu ar asedau ein cymunedau.**

Mae'r amcan hwn wrth graidd yr hyn a wna'r Cyngor Tref ac sy'n symbylu llawer o'n gweithgareddau a'n digwyddiadau. Mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli Amgueddfa Pontypridd a Chanolfan Gymunedol Taff Meadow a'r lleoedd hyn yn darparu lle cyfarfodydd i lawer o Grwpiau Cymunedol lleol. Mae'r Amgueddfa wedi trefnu 7 arddangosfa dros dro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac fe ddaeth 9,545 o ymwelwyr i'r Amgueddfa. Mae'r lle yn ganolfan gymunedol ac yn fan delfrydol ar gyfer arddangosfeydd parhaol a thros dro sy'n cynnwys gwaith artistiaid a digwyddiadau hanesyddol.

Mae'r Cyngor Tref yn berchen ar, ac yn rheoli rhandiroedd a mân-ddaliadau sy'n cynnwys 500 o leiniau a hefyd 3 ardal awyr agored a 3 chofeb rhyfel. Mae'r rhain yn rhoi plotiau rhandiroedd dan rent i'r gymuned lle mae llysiau a blodau yn cael eu tyfu dan arweiniad y strategaeth datblygu rhandiroedd sy'n rhoi pwyslais ar gael eu defnyddio gan y gymuned ac ar gynladwyedd. Mae'r strategaeth wedi cael ei ddatblygu drwy ymgynghoriad helaeth gyda'r gymuned leol ac mae'n dal i gael ei fireinio.

Mae'r Cyngor Tref yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol megis Interlink, sef mudiad sydd wedi bod yn bartner allweddol parthed Prosiect Gwella Pontypridd. Mae hyn yn ddull cyfannol o grwpiau cymunedol yn cydweithio mewn ffordd gefnogol a holistig. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi Grŵp Siediau'r Dynion a Grŵp Cadwraeth y Gamlas sy'n gweithio i warchod y loc camlas leol sy'n perthyn i'r Cyngor Tref ac sydd wedi derbyn cynhaliadau ariannol ac ymarferol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â hyn mae Cyngor y Dref yn cael ei gynrychioli ar fudiadau megis Strategaeth Lleihau Torcyfraith Busnes Canol y Dref, y Grwp Tasg Torcyfraith ac Anrhefn a Ffyrdd Diogelwch yn y Cymunedau.

Mae Cyngor y Dref yn ymdrechu i uchafu manau gwyrdd y Dref sy'n perthyn ac yn cael eu rheoli gan y Cyngor ac i wneud yn fawr ohonynt er lles y gymuned leol. Mae hefyd yn sicrhau bod adeiladau cymunedol ar gael i artistiaid, i gerddorion, i ddawnsywyr a grwpiau eraill i gwrdd ag i ymarfer eu doniau.

Mae digwyddiadau Cyngor y Dref megis yr Achlysur o Gynnau Goleuadau'r Nadolig sy'n digwydd yng nghanol y dref yn ddathliad cymunedol o gerddoriaeth, o dân gwyllt ac o ddigwyddiadau i edmygu crefftau lleol.

Bydd gwefan newydd Cyngor y Dref sydd wedi cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn yn ganolbwynt cymunedol sy'n hyrwyddo digwyddiadau grwpiau a wardiau lleol, a mawr obeithir y bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach fel ased allweddol i'r gymuned.

Amcan 2:

I gynorthwyo pobl i fyw bywydau hir ac iachus ac i oresgyn unrhyw sialens.

Mae digwyddiadau'r Cyngor Tref megis y Ras Fawr am Sbri ym mis Mehefin, a ras am sbri er mwyn codi arian i elusen Felindre yn achlysuron corfforol poblogaidd i'r gymuned sy'n digwydd yn y parc lleol, sef Parc Coffa Rhyfel Ynysangharad. Cafwyd cefnogaeth ardderchog yn 2018/19 ac yn dal i fod yn un o brif ddigwyddiadau Cyngor y Dref.

Mae 500 o blotiau rhandir y Cyngor Tref yn cael eu llawn ddefnyddio gan unigolion a Chymdeithas Rhandiroedd a'r Strategaeth Rhandiroedd y Cyngor Tref sy'n prysur ddatblygu yn cydnabod ac yn ymgyrchu i adeiladu ar yr iechedd a budd cymunedol y rhandiroedd ac i wella mynediad yr anabl i'r tir. Y mae'n wir hefyd i ddweud bod Cyngor y Dref a'r Strategaeth yn dymuno cefnogi ffyrdd cynaliadwy o weithio lle bynnag posib ac i gefnogi ymdrech a chais Tref Pontypridd I ddod yn "Wenyn Cyfeillgar" sy'n cyfyngu'r defnydd o blaladdwr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Amgueddfa wedi trefnu nifer o deithiau cerdded hanesyddol yn y dref sy'n cael eu harwain gan y Curadur Cynorthwyol, ac y mae Cyngor y Dref yn cydweithio a Chynghorau Cymuned eraill parthed datblygu digwyddiadau Teithiau Cerdded Cymunedol. Mae'r Amgueddfa hefyd wedi dod yn rhan o gynllun 'dŵr am ddim' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn ymgyrchu i ddatblygu ein darpariaeth toiledau cyhoeddus ar gyfer y gymuned leol. Mae'r Amgueddfa hefyd wedi gosod lifft newydd yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod mynediad llawer mwy hwylus a chynhwysol i aelodau'r gymuned i'r casgliadau a'r digwyddiadau yn yr Amgueddfa.

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd wedi creu Grŵp Ymgynghorol sy'n cynnwys grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn garddio cymdogaeth a phrosiectau amgylcheddol eraill. Mae hon yn fenter gyfredol sydd wedi bod yn gymorth i ddatblygu Strategaeth rhandiroedd sydd â lles a chynnaladwyedd wrth graidd ei fodolaeth.

Mae'r fenter Gwella Pontypridd yn brosiect o bartneriaeth gydag Interlink a hefyd y gweithio gyda grwpiau cymunedol wedi arwain at Gwrs Garddio Cymunedol ym Mharc Coffa Rhyfel Ynysangharad. Mae Cyngor y Dref ac Interlink hefyd wedi cydweithio'n agos â rhwydwaith lles oedd wedi cael ei hyrwyddo fel digwyddiad o bartneriaeth ymgynghorol lwyddiannus yn y Miwni ym Mhontypridd yn 2018. Mae'r berthynas hon yn un sy'n datblygu'n gyfredol a'r bwriad yw darparu myrdd o amrywiol gynhaliadau i'r gymuned leol.

Mae Cyngor y Dref wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Cyfeillgar Dementia Pontypridd yn 2018 / 19 ac yn dal i wneud hynny er mwyn sicrhau bod mwy o fusnesau a mudiadau yn dod yn ymwybodol o sut y gallent helpu'r rhai sy'n dioddef o ddementia i arwain bywyd normal. Mae'r Amgueddfa wedi datblygu blychau atgof sy'n cael eu hagor mewn cartrefi gofal ac wedi cael eu profi'n gyfarpar sy'n therapiwtig effeithlon.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr elusen ddewisodd Maer y Dref oedd y Gymdeithas Strôc ac fe godwyd arian mewn achlysurol dinesig i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y mudiad.

Amcan 3:

Tyfu economi hydwyth lleol gydag isadeiledd sy'n denu pobl i fyw, i weithio ac i chwarae yng Nghwm Taf.

Mae yna lawer o ddatblygiadau cyffrous o fewn Tref Pontypridd a'r rhai hynny wedi helaethu yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae Datblygiad Cwm Taf a'r ddêl Ddinas yn gyfleoedd fydd yn denu buddsoddiad economaidd nodedig a gweithgarwch i'r dref, sef ardal allweddol i gael ei wasanaethu gan y system Fetro newydd. Wrth symud ymlaen mae cyngor y Dref yn wir obeithio bod yn bartner allweddol yn y datblygiad hwn ac y bydd yn uchafu ei safle o fewn y datblygiadau hyn yn y dref mewn ffordd gefnogol.

Mae'r digwyddiadau y mae Cyngor y Dref yn eu trefnu yn y dref megis y Diwrnod Hen Foduron ym mis Awst a Chynnau Goleuadau'r Nadolig ym mis Tachwedd yn hybu'r economi lleol ac yn denu llaweroedd i'r dref. Denodd Diwrnod yr Hen Foduron yn 2018 nifer health o ymwelwyr I Barc Coffa Rhyfel Ynysangharad a llawer ohonynt yn dod o du allan i'r ardal. Denodd yr Amgueddfa a'r Ganolfan Treftadaeth dros 9,500 o ymwelwyr llynedd gydag ymatebion gradd boddhad o 93%.

Mae'r Amgueddfa yn cefnogi ffyniant Pontypridd drwy gyfrannu bron I £300,000 I'r economi lleol yn sgil gwariant ymwelwyr, drwy greu gwaith lleol a chaffael nwyddau a gwasanaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys partneriaid lleol yn y diwydiannau creadigol sydd â pherthynas agos â'r Amgueddfa er mwyn hyrwyddo gwaith prosiectau cymunedol. Mae gwirfoddolwyr yn yr Amgueddfa y llynedd wedi dysgu sgiliau ac wedi ennill hunan hyder sydd wedi bod yn gymorth iddynt gael gwaith y tu mewn a'r tu allan i'r sector treftadaeth.

Mae Cyngor y Dref hefyd yn bartner nodedig gyda'r Awdurdod Unedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae Cyngor y Dref yn llofnodydd i'r siarter rhwng RhCT a Chynghorau'r Dref a'r Gymuned yn yr ardal ac yn frwd i gydweithio â RhCT wrth gefnogi datblygiad economaidd yn y dref. Mae Cyngor y Dref yn fuddiolwr yr Ardoll Isadeiledd Cymunedol ac wedi derbyn cyfnaswm o £35,189.59 hyd at heddiw (£2,821.02 a dderbyniwyd yn 2018 / 19) sef arian sydd wedi, ac yn cael ei ddefnyddio ar wariant er lles y gymuned ar yr isadeiledd lleol yn cynnwys llochesau aros am fws yn y dref.

Mae Cyngor y Dref hefyd wedi gweithio'n agos gyda BID Pontypridd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnig cefnogaeth ar y cyd ar gyfer digwyddiadau yn y dref a phrosiectau'n cynnwys cymuned y busnesau lleol.

Mae Cyngor y Dref yn rhoi arian dan y Cynllun Grantiau Bach (Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972) ar gyfer grwpiau cymunedau bach lleol i gynnig amdano. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018 / 19 rhoddwyd y swm o £5,800 i 53 o grwpiau anfonodd gais o'r gymuned leol.

Mae Cyngor y Dref yn ymwybodol bod pobl ifanc y dref yn grŵp tyngedfennol, a'r llynedd hyrwyddodd ei Brosiect Sialens i Ysgolion ym mysg ysgolion lleol. Gobeithir y bydd prosiect tebyg sy'n ymwneud â phobl ifanc yn yr ardal yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.

